

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 24ain o Ionawr 2024 am 7.30yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cyng. Catrin Johnson, John P Jones, Berwyn Harding, Wyn Lewis, John P Roberts, Idris Jones, Sion Alun Roberts, Rhys Davies, Arfon Hughes, Lynne Mccrickett, a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Catrin Johnson..

Gwahoddwyd **ddatganiadau o ddi-dordeb** am faterion ar yr agenda. Nid oedd unrhyw ddatganiadau.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd** ar y 29ain o Dachwedd ar gynnig Cyng Idris Jones a'i eilio gan Cyng John P Jones.

4. Materion yn codi

a) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd am y materion Priffyrdd a Cefnffyrdd ers y tro diwethaf. Gyda dwr ar Rhiw Landrin, gwelwyd fod angen lluniau fel tystiolaeth i ddangos hyn, a byddai Cyng Idris Jones ac Arfon Hughes yn danfon rhai ymlaen. Gyda maes parcio Neuadd Aberangell, byddai rhaid cyfarfod ar y safle gyda Chyngor Gwynedd gyda Cyng Berwyn Harding, Rhys Davies a Catrin Jones.

Roedd y dwr sy'n dod i lawr at iard ty 'Conifers' ac yna i lawr i'r ffordd yn parhau yn broblem. Cadarnhawyd nad oedd yn dod o'r llwybr. Hefyd roedd yr Adran Priffyrdd a Dwr Cymru wedi bod allan ger y safle Noswyl Nadolig. Addawodd Cyng John P Roberts gynorthwyo gyda'r mater.

O ran materion Cefnffyrdd, roedd angen atgoffa am y dwr o flaen Celyn Brithion.

b) **Gwerthiant Eglwys Llanymawddwy** – adroddwyd fod cyfarfod wedi ei gynnal, ond nid oedd unrhyw ddatblygiadau swyddogol i'w hadrodd.

c) **Cwyn am 2 garafan static** – Min y Goedwig, Aberangell, darllenwyd ymateb pellach y Parc Cenedlaethol, a'u bod yn ymchwilio ymhellach. Mynegwyd teimladau cryf am y sefyllfa, ac roedd angen ymateb ar frys gan y Parc Cenedlaethol. Byddai'r Clerc yn ysgrifennu eto.

d) **Cwynion am feddygfa Machynlleth** – roedd gohebiaeth hir am y mater wedi ei ddsbarthu I bawb.

e) **Cwynion am faterion Ysgol Dinas Mawddwy** – roedd ymateb cynhwysfawr y Brifathrawes Jano Owen wedi ei ddsbarthu I bawb ymlaenllaw. Nodwyd fod yna bellach gytundeb I gael cwrdd a'r rhieni, a byddai Cyng Sion Alun Roberts yn adrodd ymhellach.

f) **Pwyllgor yr Hen Fynwent** – roedd siom nad oedd symud ymlaen gyda'r materion. Eglurodd Cyng Catrin Jones ei bod fel aelod o'r Pwyllgor yn pwysu am atebion gan y Cyfreithiwr dan sylw, a bod croseo I unrhywun godi y mater gyda'r unig ymddiriedolwr,

sef Gwilym Edwards Bryncelyn. Eglurwyd mai pwyllgor allanol oedd hwn, ac nid yn gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned.

g) **Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas** – adroddwyd y gohebiaeth gyda Cyng Wyn Lewis, a byddai cyfarfod yn cael ei drefnu gyda Cyng Wyn Lewis, Arfon Hughes a Idris Jones.

h) **Maes chwarae presennol Lawnt y Plas** – roedd yr ymateb yn dweud fod y cyfarpar wedi ei archwilio, a bod y parc mewn cyflwr gweddol dda. Byddai'r safle ar restr paentio y flwyddyn nesaf.

i) **Biniau baw cwn** – adroddwyd am waith Cyng Lynne Mccrickett ar y mater. Yn anffodus, y dealltwriaeth oedd nad oedd biniau pellach ar gael, ond addawodd Cyng John P Roberts gynorthwyo ymhellach.

5. Materion Cynllunio

Nid oedd unrhyw geisiadau gerbron..

6. Materion Cyllid.

a) **Nodwyd balansau cyfrifon y Cyngor** (24.01.24), sef Cyfri Cyfredol £6938.46, Cyfri Claddedigaeth £1873.23 Cyfri Cadw £776.80. Rhoddwyd adroddiad manwl gan y Clerc o'r sefyllfa bresennol, a'r costau tebygol sy'n gwynebu y Cyngor hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol. Rhoddwyd caniatad i'r Clerc drosglwyddo £1000 o'r cyfri cyfredol i'r cyfri claddedigaeth i gyfarfod y costau adeg hon o'r flwyddyn.

Nodwyd fod £907.36 wedi ei dderbyn i'r cyfri claddedigaeth parthed ail-agor bedd i'r diweddar Doris Rowlands, a £121 parthed gosod beddfaen i'r diweddar Avona Mary Williams.

b) Roedd yr anfonebau canlynol i law;

Tegid Humphreys - torri gwair mynwentydd Mallwyd a Llanymawddwy, a gwrychoedd Llanymawddwy - £910

Hefin Davies am dorri gwair mynwent Dinas Mawddwy - £663.95

John Arfon Owen – ail-agor bedd I'r diweddar Doris Rowlands £750.

Ar gynnig Cyng John P Roberts a'l eilio gan Lynne Mccrickett, cytunwyd I dalu rhain.

c) Cytunwyd hefyd, ar gynnig Cyng Sion Alun Roberts a'l eilio gan Idris Jones I dalu y canlynol;

Archwilio Cymru - am archwilio cyfrifon 2022-23 - £200.

Cydnabyddiaeth 3ydd Chwarter y Clerc- £434.95

HMRC - £108.80.

d) Roedd y ceisadau canlynol am arian i law, a chytunwyd fel a ganlyn ar gynnig Cyng. John P Jones a'l eilio gan Arfon Hughes

Neuadd Dinas Mawddwy - £600 (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Wyn Lewis, Catrin Jones a Lynne Mccrickett)

Neuadd Aberangell - £300. (datganiad diddordeb gan Cyng Berwyn Harding)

Hefyd ar gynnig John P Roberts a’l eilio gan John P Jones cytunwyd I dalu £300 i **Eisteddfod y Groglith** yn dilyn llythyr I law. (datganiad diddordeb gan Cyng Arfon Hughes)

- e) Roedd ceisiadau am arian I law gan Yr Urdd – ‘Cronfa Cyfle I Bawb’, ynghyd a Dawns i Bawb (elusen cofrestredig) , a phenderfynwyd yn unfrydol i beidio cyfrannu i’r ceisiadau yma.

7.Gohebiaeth.

- a) **Hyfforddiant Cynghorwyr** – roedd y cyrsiau gan Un Llais Cymru oedd ar gael ar gyfer Ionawr, Chwefror a Mawrth wedi eu dosbarthu. Rhestrwyd y rhai pwysig, a’r cynigion o bwrsari oedd ar gael. Nodwyd hefyd arolwg costau byw oedd i law gan Un Llais Cymru, a byddai’r Clerc yn ei ddosbarthu.
- b) **Timau tacluso Cyngor Gwynedd** – addawodd y Clerc ddosbarthu e-bost David Charles Williams o’r Cyngor a oedd yn cynnwys holiadur.
- c) Roedd e-bost gan Glenys Evans ar ran ‘Patients Forum’ talgylch ‘Iechyd bro Ddyfi’ yn gwahodd cynrychiolydd. Cytunodd Cyng Berwyn Harding fynd ar ran Cyngor Mawddwy.
- d) Roedd e-bost I law gan Olwen Jones, Ysgrifennydd Capel Ebeneser yng nghyswllt parcio o flaen y capel. Gwelwyd y dylid gofyn am linellau oddiamgylch safle sgwar o flaen y gatiau I’w gadw yn glir ar gyfer mynediad anabl, a chael arwyddion ‘Dim parcio o flaen y giat’
- e) Roedd copiau e-bost wedi ei ddanfon I’r Clerc gan Parch Miriam Beecroft ynglyn a cyflwr y ffordd heibio’r Eglwys yn Mallwyd, Atgoffwyd pawb fod Cyngor Gwynedd wedi ail-wynebu y ffordd yma yn y gorffennol, a bod yna farn gryf y dylent barhau y cyfrifoldeb. Gwelwyd fod y Cyngor Cymuned wedi ysgrifennu sawl tro am hyn, ac mai llwybr troed bellach oedd y statws am y map diffiniol. Roedd yn anodd gwybod beth arall y gellid ei wneud.
- f) Nodwyd ohebiaeth gan ecodyfi yn hysbysu am arweinydd /rheolwr i ecodyfi, fyddai hefyd yn gyd-lynydd I Biosffer Dyfi.

8. Unrhyw Fater arall.

- a) Cyfeiriwyd at arolwg gan Ecodyfi ynglyn a rhaglen i gryfhau lles pobl ym Mro Ddyfi, ac yn gofyn a all Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi fod yn hwb ar gyfer gweithgareddau awyr agored yn seiliedig ar fyd natur ar gyfer ei staff a’r gymuned leol, yn ogystal â chanolfan ar gyfer gofal meddygol. Byddai’r Clerc yn ei ddosbarthu.
- b) Diolchwyd am y gwaith da ar y ffordd ger Bryncelyn. Roedd tyllau yn y ffordd ger y Felin, Llanymawddwy, ac ar dop rhiw Ty’n Pwll.
- c) Gofynnwyd beth fyddai’r posibilrwydd o gael diffibrilator I Lanymawddwy. Byddai rhaid gofyn I ddechrau gyda’r Ymatebwyr Cyntaf a oedd yn gyfrifol am y rhai presennol yr yr ardal.

- d) Roedd tenantiaid stad Haulfryn, Aberangell angen mwy o le I barcio o flaen eu tai, ac roedd yna safle addas pe bai modd tynnu glaswellt oddiyno, a chaledu rhan fach o'r tir. Byddai'r Clerc yn danfon nodyn at Adra.
- e) Roedd yna lawer o waith casglu sbwriel wedi ei wneud yn yr ardal yn ddiweddar, a gwnaed apel am l'r Cynghorwyr Cymuned I gynorthwyo yn y gwaith. Roedd angen codi hyn hefyd gyda Adran Cefnffyrdd yng nghyswllt yr A470 a'r A458. Diolchwyd yn fawr iawn l'r holl wirfoddolwyr fu wrthi gyda'r gwaith gwerthfawr yma. Nodwyd y gulfan ger Pontarwysgen ar yr A458 fel man lle gwelir llawer o sbwriel, a gofynnwyd beth oedd pwrpas y gulfan yma. Penderfynwyd yn unfrydol y dylid gofyn i Cefnffyrdd i gau y gulfan yma.
- f) Roedd tyllau ar yr hen ffordd sy'n arwain I Aberangell.
- g) Nodwyd y goleuadau traffic ar yr A458 rhwng Nantyrhedydd a Tynewydd Dugoed, ac roedd angen cael mwy o wybodaeth.
- h) Atgoffwyd pawb o Sioe Branwen sy'n cael ei pherfformio yn Neuadd Dinas Mawddwy gan plant yr Adran ar Nos Sadwrn 17eg o Chwefror.
- i) Gwelwyd fod angen mwy o olau yn y maes parcio yn y Plas yn Dinas, a gofynnwyd l'r Clerc ddanfôn gair at Adra.
- j) Roedd tyllau ar y ffordd at y bont ar Gomin Dolybont, ac angen sylw. Hefyd roedd pryder yn parhau am y coed uchel yno, ac y gallent fod wedi cwmpo yn ddiweddar. Nodwyd eto yr addewid a gafwyd rai blynyddoedd yn ol gan Arweinydd Cyngor Gwynedd y byddent yn cael eu torri.
- k) Nodwyd y cais am wybodaeth am sefyllfa biniau halen o fewn yr ardal, ac atgoffwyd fod yr halen yn biniau Bryncerist a ger Dolgelynnen wedi caledu, ac nad oedd posib ei ddefnyddio. Hefyd roedd y caead wedi torri ar un Bryncerist.

DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY NOS FERCHER 6ed o Fawrth 2024 , 7.30y.h.